# Cyngor ychwanegol i Lywodraeth Cymru ynghylch y cynnig i ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, yng Nghymru

## Ystyried y defnydd posibl o Hysbysiadau Stop o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008

Cyflwynwyd cyngor gennym yn ddiweddar mewn perthynas â’r cynnig i ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y mae’n berthnasol i Gymru. Roedd llawer o’r cyngor hwnnw’n canolbwyntio ar ein hasesiad o’r ymatebion a ddaeth i law i’n hymgynghoriad ar y cyd lle gwnaethom nodi cynigion ar gyfer rheoleiddio rhyddhau’r ddwy rywogaeth hon yn fwriadol yn y dyfodol.

Yn ein cyngor, gwnaethom gyfeirio at rai ymgyngoreion yn awgrymu y gallai defnyddio “hysbysiadau stop” fod yn ddewis arall (neu’n rhan o ddewis arall) yn lle cyflwyno rheoliad newydd. Fodd bynnag, ni nododd yr ymgyngoreion hynny at ba ddarpariaeth yr oeddent yn cyfeirio.

Ar dudalen 14 o’n cyngor, dywedasom:

> *“Rydym wedi ystyried awgrymiadau a wnaed am ddulliau eraill, gan gynnwys defnyddio “hysbysiadau stop”. Tybiwn fod hwn yn gyfeiriad at y darpariaethau sy’n ymwneud â Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig yn Rheoliadau 27-31 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Nid ydym yn ystyried hwn yn ddewis amgen rhesymol i gyflwyno darpariaeth drwyddedu drwy ychwanegu’r rhywogaethau at Atodlen 9. Rydym wedi dod i'r farn hon am ddau reswm. Yn gyntaf, dim ond i safleoedd Ewropeaidd y gall y gorchmynion hyn fod yn berthnasol. Ni ellir eu defnyddio i reoli risgiau effeithiau rhyddhau adar hela yn agos at safleoedd sydd wedi’u dynodi’n SoDdGA yn unig, ac ni ellir eu defnyddio ychwaith i ddiogelu’r cynefinoedd a rhywogaethau hynny a nodir ac a restrir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn ail, maent yn fecanwaith “dewis olaf” gyda'r bwriad o fynd i'r afael â bygythiad i safle penodol lle mae dulliau eraill wedi methu, yn hytrach nag offeryn i reoli risg fwy cyffredinol sy'n deillio o weithgarwch eang.*”

Ers darparu’r cyngor hwnnw, rydym wedi dod yn ymwybodol bod hysbysiad stop o dan adran 46 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 wedi’i ddefnyddio’n flaenorol

yn Lloegr mewn perthynas â rhyddhau adar hela. Roedd y defnydd o hysbysiad stop o'r fath yn destun adolygiad gan dribiwnlys haen gyntaf a'r uwch-dribiwnlys yn 2018 a 2019 yn y drefn honno. Mae dyfarniad yr uwch-dribiwnlys uchaf ar gael yma: [YN YR UWCH-DRIBIWNLYS (publishing.service.gov.uk)].

Felly, rydym o'r farn y gallai rhai neu bob cyfeiriad at hysbysiadau stop mewn ymatebion i'r ymgynghoriad ymwneud â'r ddarpariaeth hon, yn hytrach na hysbysiadau stop o dan Reoliadau 2017.

O edrych ar y darpariaethau ar gyfer hysbysiadau stop o dan Ddeddf 2008, er eu bod yn wahanol i hysbysiadau stop o dan Reoliadau 2017, nad ydynt wedi'u cyfyngu i gael eu defnyddio i ddiogelu safleoedd Ewropeaidd, nid ydym o'r farn eu bod yn cynnig dewis arall rhesymol i'r dull rheoleiddio a gynigir gennym, am resymau tebyg.

Ein barn ni yw bod hysbysiadau stop yn ddewis olaf o ryw fath ac yn opsiwn 'adweithiol' i fynd i'r afael â risg sydd ar fin digwydd neu risg sy'n datblygu mewn sefyllfa benodol, yn hytrach na dull rhagweithiol o reoleiddio gweithgarwch eang. Rydym hefyd yn nodi bod yn rhaid i hysbysiadau stop o dan Ddeddf 2008 gael eu cyflwyno i unigolyn ac er ein bod yn credu y gallant nodi'r ardal o dir y maent yn berthnasol iddo, ni ellir eu cymhwyso i unrhyw berson sy'n cyflawni'r camau gwaharddedig ar y tir hwnnw.

Teimlwn na fyddai dibynnu ar hysbysiadau stop yn gwneud llawer i annog mabwysiadu arferion da yn ehangach nac i wella'r data ar raddfa a lleoliad y gollyngiadau ger ardaloedd gwarchodedig. Rydym hefyd yn rhagweld y gallai fod anawsterau ymarferol wrth ddefnyddio hysbysiadau stop i reoli achosion o ryddhau adar hela a allai fod yn niweidiol. Byddai angen cyflwyno rhybuddion cyn rhyddhau'r adar er mwyn cael unrhyw effaith. Felly, byddai angen inni fod yn ymwybodol o fwriad person i ryddhau adar hela ymhell cyn y weithred ei hun, er mwyn llunio a chyhoeddi'r hysbysiad. Ymhellach, pe bai'r hysbysiad yn cael ei gyflwyno tra bod yr adar yn dal yn eu corlannau, yn gwahardd eu rhyddhau, byddai'n debygol o arwain at fater lles anifeiliaid, yn ogystal â pherygl o waethygu ac ymestyn unrhyw effeithiau amgylcheddol yn y gorlan ryddhau.

Un o'r rhagofynion yn adran 46 o Ddeddf 2008 ar gyfer defnyddio hysbysiad o'r fath yw *"the activity as likely to be carried on by that person will involve or will be likely to involve the commission of a relevant offence by that person"* (adran 46 o Ddeddf 2008). Yn y cyd-destun hwnnw, rydym yn teimlo ei bod yn annhebygol y gellid defnyddio hysbysiadau stop i reoli'r risg o niwed i gynefinoedd a rhywogaethau a restrir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Er bod adrannau 6 a 7 o Ddeddf 2016 yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus i gynnal a gwella cynefinoedd a rhywogaethau rhestredig, nid ydynt yn creu unrhyw droseddau ehangach o niweidio neu ddinistrio nodweddion rhestredig.

Yn olaf, nid ydym yn ymwybodol bod CNC, ar hyn o bryd, wedi'i rymuso, yn unol ag adran 36 o Ddeddf 2008, i ddefnyddio hysbysiadau stop at y diben hwn. Fodd bynnag, deallwn fod sylwadau cychwynnol wedi'u gwneud yn ddiweddar ynghylch ehangu'r pwerau sydd ar gael i CNC ddefnyddio Sancsiynau Sifil o dan y Ddeddf hon.

8 Tachwedd 2023